| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Chwefror 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cyng Huw Jones - Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol<br>Nicola Stubbins - Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Emlyn Jones  Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd |
| **Teitl:** | **Strategaeth Iaith Gymraeg** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â Strategaeth Iaith Gymraeg arfaethedig y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.2 Y rheswm dros yr adroddiad yw briffio'r Cabinet ar y Strategaeth Iaith Gymraeg arfaethedig fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.3 Bod yr Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r strategaeth arfaethedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae angen Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer y Cyngor i amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer yr Iaith Gymraeg a'r hyn y byddwn yn ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i hyrwyddo'r iaith gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn y Sir. Mae'r Comisiynydd Iaith Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu Strategaeth sy'n gorfod cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal % y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd.

4.2 Mae'r Strategaeth wedi datblygu dan 5 prif thema:

- Cynllunio Strategol yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych
- Plant a Phobl Ifanc
- Cymuned
- Busnes a'r Economi
- Gweinyddu'r Cyngor yn Fewnol

Yna bydd y camau gweithredu penodol yn cael eu cynnwys dan bob thema.

4.3 Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu % y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y Sir cymaint â 0.5% erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth. Bydd y Strategaeth yn uchelgeisiol ac yn realistig.

4.4 I baratoi ar gyfer y Strategaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau), yr Aelod Arweiniol, Cefnogwyr yr Iaith Gymraeg, Rheolwyr Canol trwy weithdai ac Aelodau ehangach trwy weithdy ar wahân. Cafwyd camau gweithredu a awgrymwyd gan Wasanaethau o'r ymgynghoriad ac fe'u cynhwyswyd yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gyda'r Rheolwyr Canol/Gwasanaethau i gytuno ar y camau gweithredu terfynol.

4.5 Rydym wedi cyfarfod gyda Phartneriaid yn y Fforwm Iaith h.y. yr Urdd, Menter Iaith ayyb i geisio'u barn ar y strategaeth ddrafft.

4.6 Cyflwynwyd y Strategaeth ddrafft i Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Cyngor sydd wedi'i fynychu gan Aelodau a Swyddogion, ac hefyd i Uwch Dim Arweinyddiaeth y Cyngor.

4.7 Bydd y camau gweithredu yn cael eu monitro trwy Verto yn chwarterol a rhoddir gwybod i Bwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg y Cyngor. Bydd y camau gweithredu yn y Strategaeth hefyd yn cael eu cynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth.

4.8 Gellir gweld y Strategaeth ddrafft yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

**5.1** Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r Iaith Gymraeg ac wedi croesawu Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd y penderfyniad hwn o gymorth i sicrhau bod y Cyngor â strwythur yn ei le i fonitro a llywodraethu datblygiad yr Iaith Gymraeg o fewn y Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd angen gwneud gwaith pellach i ganfod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau yn y strategaeth yn unol â blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol newydd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Mae'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi ei atodi wrth yr adroddiad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Rheolwyr Gwasanaeth, Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg, Partneriaid (Urdd, Menter Iaith) a Chefnogwyr yr Iaith Gymraeg.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**9.1** Bydd angen gwneud gwaith pellach i ganfod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau yn y strategaeth yn unol â blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol newydd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

**10.1** Y risg o beidio rhoi'r newid hwn ar waith yw na fydd y strwythur angenrheidiol yn ei le i sicrhau darpariaeth a gweithrediad Strategaeth yr Iaith Gymraeg a Safonau'r Iaith Gymraeg.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safon Iaith Gymraeg 145